Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed o Ionawr 2023

Presennol oedd Prys Ellis, Trystan Humphreys, Llio Morris, John Jones, Guto Jones, Maria Roberts (Cadeirydd) a Cyng Gwennol Ellis. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ffuon Williams a Einion Edwards.
Datgan diddordeb or agenda neb yn datgan.
Cofnodion blaenorol fe'u harwydwyd fel rhai cywir.
Codi or cofnodion trafodwyd cais am arian oddiwrth Ambiwlans Awyr Cymru pasiwyd i rhoi £500.00.
Gohebiaeth
[1] Llyfrgell cymunedol Cerrig y Drudion yn ddilyn Cyfarfod gyda Aaron Wynne a Cyng Gwennol Ellis ym Mhentrefoelas yn ddiweddar lle nodwyd gan Aaron Wynne bod toriadau ir llyfrgelloedd yn Sir Conwy ac eglurwyd mai ffordd ymlaen oedd i ofyn am gyfraniad o £3000.00 or 4air Cyngor Cymuned yn mro Uwchaled penodi swm yn ol nifer o elthollwyr ym mhob Cyngor Cymuned. Gofynwyd am y swm o £1250.00 or Cyngor Cymuned yn Ngherrig y Drudion a cytunwyd i gefnogi y cais or swm a ofynwyd sef £1250.00.
Deallwn hefyd bydd pwyllgor blynnyddol ynglŷn ar llyfrgell cymunedol Cerrig y drudion yn cael ei drefnnu yn fuan, lle bydd cyfle i unrhyw un or 4air cymuned fynnychu, y clerc i gysylltu gyda Haf Jones i ofyn am ddyddiad.
[1.1] Hwb Cannolfan Glyd deallwn bod cannolfannau clyd wedi ei lleol yn y Llew Gwyn ar ddyd Mercher ac yn y Llyfrgell ar dydd Iau y ddau leloiad wedi bod yn llwyddiannus i gael cymorth grant ac dywedwyd bod llawer yn mynnych yr lleoliadau. Mae y Cyngor Cymuned wedi derbyn £640.00. ir llyfrgell.
[1.2] Darpariaeth ar gyfer y baned – mae'r clerc wedi prynu adnoddau ir Ganolfan Glyd yn y llyfrgell y swm a wariwyd hyd yma yw £195.34 pasiwyd i dalu'r clerc.
[1.3] I N Ferguson anfoneb am gadw'r wefan £50.00 pasiwyd iw dalu.
[1.4] Dwr Cymru anfoneb £13.64. pasiwyd iw dalu.
[1.5] Cyngor Bwreisdref Sirol Conwy precept am y flwyddyn 2023/24 pasiwyd i godi'r precept i £7500.00.
[1.6] Scottish Power anfoneb dim taliad angen ei wneud mewn credyd.
[1.7] Manchester House cafwyd cwyn bod glastwellt yn disgyn ar Gerbyd pan yn torri gwair yn y fynwent cysylltu ar torrwr gwair i ddweud wrtho am adael ir perchnogion wybod pan yn torri.
[1.8] Cyngor Sir Conwy derbyniwyd ir banc y grant Canolfan Glyd y swm o £640.00.
[1.9] Cyngor Sir Conwy derbyniwyd ir banc y precept olaf y flwyddyn ariannol 2022 sef £2000.00.

Cadeirydd…………………………………………………………..